

DINAS A SIR ABERTAW
ADRAN Y GWASANAETHAU PARCIO
ADRODDIAD BLYNYDDOL
1 MEDI 2008 - 31 MAWRTH 2009

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ar 1 Medi 2008, dynodwyd Dinas a Sir Abertawe'n Ardal Gorfodi Sifil ar gyfer Tramgwyddau Parcio ac yn Ardal Gorfodi Arbennig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd hyn yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb o orfodi tramgwyddau parcio 'ar y stryd' o Heddlu De Cymru i'r cyngor. Ni ellir trosglwyddo'r pwerau hyn yn ôl i'r heddlu ar ôl eu caniatáu.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar berfformiad y gwasanaeth o 1 Medi 2008 i 31 Mawrth 2009 ar gyfer gweithrediadau gorfodi mewn meysydd parcio ac ar y stryd.
- 1.3 Nid yw parcio'n groes i'r rheoliadau parcio bellach yn drosedd, ond mae'n parhau i fod yn weithred anghyfreithlon. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn gweithredu o dan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1984, Deddf Traffig Ffyrdd 1991, Deddf Rheoli Traffig 2004, Traffig Ffyrdd Cymru ac Offerynnau Statudol 2008 - Rhifau 609, 612, 613, 614, 615, 616 ac 620. Yn ogystal â hyn, mae dau Orchymyn Rheoleiddio Traffig sef 'Gorchymyn Cyfunol Dinas a Sir Abertawe (Mannau Parcio oddi ar y Stryd) (Talu ac Arddangos) 2008' a 'Gorchymyn Dinas a Sir Abertawe (Gwahardd ac Atal Aros a Llwytho mewn Mannau Parcio) (Cyfuniad) 2008'. Ers cyflwyno'r ddau orchymyn cyfunol, mae sawl gorchymyn rheoleiddio traffig lleol wedi cael eu cyflwyno hefyd.
- 1.4 Mae'r cyngor wedi bod yn gyfrifol am orfodi tramgwyddau parcio yn ei feysydd parcio ers sawl blwyddyn. Ymdriniwyd â thramgwyddau gyda hysbysiadau o dâl ychwanegol, sef dirwy o £40 (wedi'i ostwng i £20 os câi ei dalu o fewn 14 diwrnod). Os na fyddai person yn talu'r hysbysiad o dâl ychwanegol, byddai'n derbyn gŵys i lys yr ynadon. Ni fyddai'r cyngor yn derbyn unrhyw dâl o'r dirwyon a orfodwyd gan lys yr ynadon oherwydd cesglir pob dirwy gan Adran yr Arglwydd Ganghellor, ac yno y byddant yn aros.
- 1.5 Mae gorfodaeth sifil o reoliadau ar y stryd ac oddi ar y stryd yn elwa'r cyngor mewn sawl ffordd. Mae rhai manteision yn cynnwys bod yn gyfrifol am orfodi gorchymynion rheoleiddio traffig y mae'n eu gorfodi ac felly gall ymdrin â materion yr ystyrir eu bod yn bwysig. Mae hyn yn sicrhau llif traffig gwell, bydd yn haws dod o hyd i fannau parcio oherwydd bydd mwy o newid mewn cerbydau sydd wedi'u parcio, bydd llygredd yn lleihau oherwydd bydd llai o geir yn gyrru o gwmpas yn chwilio am fan parcio gwag, bydd mynediad gwell i

gerbydau brys a chludiant cyhoeddus oherwydd diffyg rhwystrau parcio anghyfreithlon Yn ogystal â hyn, y cyngor sy'n cadw dirwyon a delir gan fodurwyr sy'n tramgwyddo'r gorchmynion traffig a chânt eu defnyddio i dalu am gostau cynnal y gwasanaeth.

- 1.6 Ym mis Awst 2008, cytunodd y cyngor y byddai'r taliadau cosb ar gyfer tramgwyddau parcio'n £50 ar gyfer y tramgwyddau lefel is ac yn £70 ar gyfer y rhai lefel uwch. Yn unol â deddfwriaeth, ceir gostyngiad o 50% ar y taliadau hyn os cânt eu talu o fewn y 14 diwrnod cyntaf. Fodd bynnag, os na chânt eu talu o fewn 56 diwrnod byddant yn cynyddu 50% ac, yn y pen draw, os na chânt eu talu bydd y cyngor yn cofrestru'r ddyled gyda'r Llys Sirol a chyfarwyddir cwmnïau'r Gwasanaeth Adennill Dyledion (beiliod) i adennill y taliadau cosb sy'n ddyledus.
- 1.7 Cynhelir proses apelio gynhwysfawr law yn llaw â'r gweithdrefnau adennill a amlinellwyd ym mharagraff 1.6. Mae tri cham ar gyfer apelio a bydd gan fodurwyr y dewis terfynol o apelio i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig. Caiff achosion eu dyfarnu gan gyfreithwyr annibynnol ac mae'r ddau barti'n ymrwymedig i benderfyniadau'r tribiwnlys.
- 1.8 I hwyluso'r prosesau hyn, yn ogystal â'r staff gorfodi a recriwtiwyd, sefydlwyd proses weinyddu gynhwysfawr a dyluniwyd rhaglen feddalwedd i reoli pob hysbysiad o dâl cosb, o'i gyflwyno i gau'r mater. Gwneir gweithrediadau a gwaith gweinyddol Gwasanaethau Parcio Abertawe yng nghanol y ddinas.

2. Parcio oddi ar y Stryd

- 2.1 Mae gan Ddinas a Sir Abertawe gyfanswm o 53 o feysydd parcio wedi'u rhestru yng Ngorchymyn Cyfunol Dinas a Sir Abertawe (Mannau Parcio oddi ar y Stryd) (Talu ac Arddangos) 2008.
- 2.2 Mae tri maes parcio aml-lawr yng nghanol y ddinas lle mae'n rhaid talu wrth adael, ond mae pob maes parcio arall yn un talu ac arddangos. Yn ogystal â hyn, mae tri maes parcio Parcio a Theithio ar gyrion y ddinas. Mae'r rhain yn feysydd parcio talu ac arddangos hefyd.
- 2.3 Mae prisiau meysydd parcio yn amrywio a dynodir meysydd parcio'n rhai 'arhosiad hir', 'arhosiad byr', 'blaendraeth' a 'maestrefol'. Yn ogystal â hyn, gellir parcio mewn 13 maes parcio am ddim ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n bosib y cyflwynir taliadau yn rhai o'r meysydd parcio hyn yn y dyfodol agos. Mae dau faes parcio wedi'u clustnodi ar gyfer deiliaid tocyn tymor yn unig ac mae un ar gyfer deiliaid bathodyn glas yn unig.
- 2.4 Mae'r prisiau'n amrywio o £1.30 yr awr yn y meysydd parcio aml-lawr yng nghanol y ddinas i 50c yr awr mewn meysydd parcio maestrefol.
- 2.5 Yn ogystal â 3 maes parcio aml-lawr NCP yng nghanol y ddinas, sydd â phrisiau uwch na meysydd parcio aml-lawr y cyngor, gellir parcio am ddim am 2 awr ym

meysydd parcio Tesco a Sainsbury's, sydd â siopau mawr yng nghanol y ddinas.

- 2.6 Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd cyfanswm o 2,658 o hysbysiadau o dâl cosb am dramgwyddau yn ein meysydd parcio. Mae Tabl 1 isod yn nodi'r tramgwyddau amrywiol ac, fel y gwelir, mae'r nifer uchaf o dramgwyddau yn ymwneud â pheidio ag arddangos tocyn parcio'n glir.

Tabl 1

Côd y Tramgwydd	Tramgwydd	Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a gyflwynwyd
70	Parcio mewn man llwytho	2
80	Parcio am gyfnod hwy na'r hyn a ganiateir	34
81	Parcio mewn ardal gyfyngedig	6
82	Parcio ar ôl i'r amser y talwyd amdano ddod i ben	418
83	Parcio heb arddangos tocyn yn glir	1,770
84	Ychwanegu arian at y tocyn	0
85	Parcio mewn cilfach drwydded	299
86	Parcio y tu hwnt i farciau'r gilfach	65
87	Pobl anabl yn parcio heb fathodyn	63
92	Rhwystro	1
93	Parcio mewn maes parcio oedd ar gau	0
	Cyfanswm	2,658


- 2.7 Yn ystod y pum mis blaenorol cyn cyflwyno'r gorfodi sifil, cyflwynwyd cyfanswm o 1,021 o hysbysiadau o dâl ychwanegol ac yn ystod blwyddyn ariannol 2007 - 2008, cyflwynwyd 3,434 o hysbysiadau o dâl cosb. Mae cyflwyno gorfodi sifil a staff ychwanegol wedi cynyddu cyfartaledd y ffigurau cyflwyno misol o 286 ym mlwyddyn ariannol 2007 - 2008 i 366 yn saith mis cyntaf y gyfundrefn parcio sifil.

3. Parcio ar y Stryd

- 3.1 Mae gan Ddinas a Sir Abertawe amrywiaeth o gyfyngiadau parcio 'ar y stryd'. O ganlyniad i gyflwyno Gorfodi Parcio Sifil, roedd gofyn i'r cyngor hyfforddi staff i ymgymryd â'r rôl hon. Yn ogystal â hyn, cafodd pedwar warden traffig a gyflogwyd gan Heddlu De Cymru eu trosglwyddo i'r cyngor. Ar 1 Medi 2008, roedd cyfanswm o 2 oruchwyliwr, 7 ariannwr/swyddog gorfodi¹ a 13 swyddog gorfodi wedi ymgymryd â hyfforddiant ar gyfer rolau a chyfrifoldebau

¹Mae gan ariannwyr/swyddogion gorfodi rôl ddeuol. Maent yn gyfrifol am gynnal a chadw'r 86 peiriant talu ac arddangos a chasglu arian parod ohonynt. Maent hefyd yn gyfrifol am gymodi'r arian a chysylltu â Group4 wrth gasglu'r arian parod o'r Ganolfan Ddinesig.

- swyddogion gorfodi sifil (parcio) a datrys gwrthdaro. Llwyddodd yr holl swyddogion hyn i ennill cymwysterau gyda'r Sefydliad City and Guilds.
- 3.2 O ganlyniad i'r ansicrwydd o ran sawl warden traffig fyddai'n trosglwyddo o Heddlu De Cymru a'r anawsterau cytundebol a gafwyd gyda staff meysydd parcio, roedd pum swydd wag ar 1 Medi (1 goruchwyliwr a 4 swyddog gorfodi sifil). Ni phenodwyd gwiethwyr i'r swyddi hyn nes mis Ebrill 2009.
- 3.3 Yn ogystal â'i rôl orfodi, parhaodd Adran y Gwasanaethau Parcio â'i chyfrifoldeb dros oruchwylio meysydd parcio a chasglu a chymodi arian parod o'r 86 peiriant talu ac arddangos sydd ar draws ardal y cyngor.
- 3.4 Gan fod posib y byddai'r gyfundrefn newydd hon yn cael effaith sylweddol ar fodurwyr yn Abertawe, cytunwyd i gyflwyno hysbysiadau rhybudd yn ystod mis Medi. Roedd hyn hefyd yn sicrhau bod staff, nad oedd ganddynt brofiad blaenorol o orfodi ar y stryd, yn cael eu mentora gan 4 warden traffig i'w galluogi i fod yn gymwys yn eu rôl. Er ei bod hi'n deg dweud y gwnaethant gymhwysu mewn cyfnod eithaf byr, ni wnaeth lefelau eu hyder ddatblygu mor gyflym a mynegodd sawl aelod o staff bryderon ynghylch eu rolau, yn enwedig y materion iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â gwrthdaro â modurwyr anhapus a/neu ddiogel.
- 3.5 Ar 1 Hydref, symudodd swyddogion o gyflwyno hysbysiadau rhybudd i hysbysiadau o dâl cosb ar gyfer pob tramgwydd ar y stryd. Mae'r graff isod yn dangos y gyfradd gyflwyno fisol ar gyfer y cyfnod adrodd.



- 3.5 Cyflwynwyd cyfanswm o 1,478 o hysbysiadau rhybudd ym mis Medi a chyflwynwyd 7,511 o hysbysiadau o dâl cosb rhwng 1 Hydref 2008 a 31 Mawrth 2009. Mae Tabl 2 isod yn nodi'r tramgwyddau amrywiol ac, fel y gwelir, mae'r nifer uchaf o dramgwyddau yn ymwneud â pharcio mewn strydoedd cyfyngedig (h.y. ar linellau melyn dwbl) a pharcio mewn cilfachau preswylwyr heb ddangos trwydded.

Tabl 2

Côd y Tramgwydd	Tramgwydd	Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a gyflwynwyd
01	Parcio mewn ffordd gyfyngedig	2082
02	Llwytho mewn stryd gyfyngedig	619
05	Parcio ar ôl i'r amser y talwyd amdano ddod i ben	13
06	Parcio heb arddangos tocyn talu ac arddangos neu daleb yn glir	73
12	Parcio mewn cilfach preswylwyr	2087
16	Parcio mewn cilfach drwydded	33
19	Parcio mewn cilfach preswylwyr neu mewn cilfach defnydd a rennir gan ddangos trwydded annilys	51
21	Parcio mewn cilfach ohriedig	0
22	Parcio eto o fewn amser gwaharddedig	2
23	Math anghywir o gerbyd	43
24	Heb barcio'n gywir	5
25	Parcio mewn cilfach lwytho	848
26	Parcio dwbl	12
30	Parcio am gyfnod hwy na'r hyn a ganiateir	840
40	Parcio mewn cilfach i bobl anabl	288
45	Parcio mewn safle tacsis	33
46	Parcio ar glirffordd	372
47	Parcio mewn safle bws cyfyngedig	71
47	Parcio mewn man ysgol cyfyngedig	19
49	Parcio ar lwybr neu lôn beicio	1
99	Parcio ar groesfan cerddwyr	9
	Cyfanswm	7511

- 3.6 Yn ystod y pum mis blaenorol, roedd wardeiniaid traffig a swyddogion heddlu yn Abertawe wedi cyflwyno 4,790 o hysbysiadau o dâl cosb am dramgwyddau parcio. Yn ystod 2006/07, cyflwynwyd 16,456 a chyflwynwyd 14,941 yn 2007/08. Mae'r ffigurau hyn, fodd bynnag, yn berthnasol i bob hysbysiad o gosb benodol ardystiadwy sy'n cynnwys sawl tramgwydd yn ogystal â pharcio.

4. Gohebiaeth

- 4.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, anfonwyd cyfanswm o 6,329 o lythyrau at fodurwyr a oedd wedi derbyn hysbysiadau o dâl cosb.

- 4.2 Ar ôl derbyn hysbysiad o dâl cosb, yn y lle cyntaf gall modurwyr gyflwyno her anffurfiol yn ysgrifenedig i Adran y Gwasanaethau Parcio. Os derbynnir her anffurfiol, mae hyn yn gohirio'r cyfnod gostyngiad 14 diwrnod nes y gwneir penderfyniad a rhoddir gwybod i'r modurwr amdano.
- 4.3 Os gwrthodir yr her, cynigir cyfnod gostyngiad 14 diwrnod ychwanegol. Yn ystod y cyfnod adrodd, derbyniwyd ac atebwyd cyfanswm o 1,759 o heriau o'r fath.
- 4.4 Os na dderbynnir taliad o fewn 28 niwrnod, cysylltir â'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) er mwyn cael enw a chyfeiriad perchennog y cerbyd. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r cyngor gysylltu â'r perchennog i'w hysbysu o'r sefyllfa bresennol o ran yr hysbysiad o dâl cosb a'i hawl i gyflwyno sylwadau ffurfiol yn erbyn yr hysbysiad. Gwnaed cyfanswm o 3,692 o geisiadau o'r fath yn ystod y cyfnod adrodd.
- 4.5 Arweiniodd y ceisiadau hyn at anfon 2,674 o hysbysiadau at berchnogion. Mae'r gwahaniaeth rhwng nifer y ceisiadau i'r DVLA a nifer yr hysbysiadau a anfonwyd i berchnogion am un o ddau reswm - naill ai bod y modurwyr wedi talu'r dirwyon neu eu bod wedi cysylltu â ni yn yr amser ar ôl i ni wneud cais i'r DVLA ond cyn i ni anfon yr hysbysiad i'r perchennog.
- 4.6 O ganlyniad i anfon yr hysbysiadau at berchnogion, derbyniwyd rhagor o apeliadau a derbyniwyd ac atebwyd 438 o lythyrau.
- 4.7 Os yw'r tâl cosb yn ddyledus o hyd, anfonir tystysgrif tâl sy'n cynyddu'r gosb 50%. Anfonwyd 1,268 o dystysgrifau tâl yn ystod y cyfnod adrodd.
- 4.8 Yn ystod y cyfnod adrodd, nid oedd y cyngor wedi dechrau'r camau nesaf i adennill y ddirwy sef hysbysu perchennog y cerbyd bod y ddyled wedi cael ei chofrestru, cofrestru'r ddyled yn Llys Sirol Northampton, hysbysu'r perchennog bod y ddyled wedi cael ei chofrestru ac, yn olaf, penodi beiliod i adennill y ddyled. Yn amlwg mae angen swm sylweddol o ohebiaeth ychwanegol i ddatrys pob achos sydd heb ei benderfynu.
- 4.9 Trwy gydol y cyfnod adrodd, ni wnaeth ymateb i apeliadau a gohebiaeth gymryd mwy na 14 diwrnod ac ymdriniwyd â'r rhan fwyaf o fewn 7 niwrnod. Nid yw'r rhaglen feddalwedd rydym yn ei defnyddio yn nodi amserlenni ar gyfer ymateb, fodd bynnag, mae gan y tîm rheoli ymagwedd ragweithiol at fonitro gohebiaeth.

5. Taliadau

- 5.1 Mae Tabl 3 isod yn dangos y taliadau a dderbyniwyd ar gyfer yr hysbysiadau o dâl cosb a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Yn ogystal â hyn, mae'r tabl yn dangos y niferoedd a'r canrannau a dalodd y gyfradd ostyngol, y gyfradd lawn a'r gyfradd â gordal.

Tabl 3

	Oddi ar y Stryd		Ar y Stryd	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Cyfanswm a gyflwynwyd	2658		7511	
Wedi'i derfynu	549	20.56%	1460	19.43%
Wedi'i dalu'n llawn	1,842	69.30%	5,306	70.64%
Cyfradd ostyngol	1,335	50.23%	4,281	57%
Cyfradd lawn	315	11.85%	615	8.19%
Cyfradd â gordal	184	6.92%	368	4.9%
Cyfanswm a dalwyd	£67,638		£225,014	

5.2 Y cyfanswm a dalwyd ar gyfer yr hysbysiadau hyn o dâl cosb yw £290,892.

6. Gwariant

6.1 Yn ystod blwyddyn ariannol 2008-2009, o ganlyniad i gyflwyno gorfodi sifil roedd diffyg ariannol sylweddol oherwydd costau sefydlu. Mae Tabl 4 isod yn amlinellu manylion y gwariant ar gyfer y costau sefydlu a chostau cynnal y gwasanaeth yn ystod y cyfnod.

Tabl 4

Gwariant	Swm
Costau cyflogaeth	£225,000
Costau/rhent y safle	£20,700
Trafnidiaeth	£7,400
T.G. Costau	£92,100
Cyfarpar	£14,900
Gwisgoedd	£9,100
Offer Swyddfa Cyffredinol/Deunydd Ysgrifennu	£7,500
Hysbysebu	£137,900
Asiantaeth	£16,400
Ymgynghoriaeth	£58,200
Cyfanswm	£589,200

6.2 Mae'r gwariant uchod yn ymwneud â gorfodi ar y stryd ac oddi ar y stryd. Mae'r gwariant 'hysbysebu' ac 'ymgynghoriaeth' yn ymwneud yn benodol â gorfodi ar y stryd, ond mae'r holl gostau eraill yn berthnasol i weithrediadau ar y stryd ac oddi ar y stryd.

6.3 Yn ôl asesiad o'r gwahaniaeth rhwng gwariant ar y stryd ac oddi ar y stryd, mae 53% o gostau yn ymwneud â gweithrediadau ar y stryd a 46% yn ymwneud â gweithrediadau oddi ar y stryd. Mae'n bosib fod hyn yn ymddangos yn anghyfartal wrth gymharu â'r ystadegau cyflwyno sef 26% oddi ar y stryd a 74% ar y stryd a'r ystadegau talu sef 71% oddi ar y stryd a 79% ar y stryd.

- 6.4 Mae'r gwahaniaethau yn y gwariant yn seiliedig ar yr amser y treuliodd staff yn y rolau. Am ei bod hi'n ofynnol cael staff mewn meysydd parcio, cynnal a chadw peiriannau talu ac arddangos a chasglu'r arian ohonynt, cyfrif a chymodi'r incwm a chysylltu â gwasanaeth diogelwch Group 4, mae'r rolau hyn yn cymryd mwy o amser na gorfodi ar y stryd.
- 6.5 Y gwariant ar gyfer parcio ar y stryd yn ystod blwyddyn ariannol 2008/09 oedd £404,443. Cafwyd £225,013 o incwm a arweiniodd at ddiffyg o £179,430.
- 6.6 Y gwariant ar gyfer parcio oddi ar y stryd yn ystod yr un cyfnod oedd £180,826. Cafwyd £67,638 o incwm a arweiniodd at ddiffyg o £113,188.
- 6.7 Gwnaeth canlyniadau ariannol saith mis cyntaf yr ymgyrch ragori ar y rhagolygon yn yr achos busnes. Mae hyn yn hyd yn oed mwy rhagorol o ystyried y dechreuodd y tîm gorfodi ym mis Medi gyda phedair swydd wag ac na phenodwyd gweithwyr i'r swyddi hyn nes mis Ebrill 2009. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid cadw mewn cof y bu'n rhaid gwario ar gostau sefydlu sylweddol ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y ffigurau gwariant.